




Dosbarthiad hanesyddol Eryr y Môr Cynffonwen yng Nghymru.

Pencampwr Rhywogaeth



Alun Davies AS
Plaid: Llafur Cymru
Bro: Blaenau Gwent



Mwy o wybodaeth

- https://www.eaglereintroductionwales.com/white-tailed-eagle-programme

Prif aelod

Wildlife Trusts Wales
Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Eryr y môr

Disgrifiad a statws

Mae'r Eryr Cynffonwen yn aderyn magu prin yn y DU a dyma ein haderyn ysglyfaethus mwyaf. Yn cael ei adnabod yn gyffredin fel Eryr y Môr, mae gan yr aderyn yma adenydd 8 troedfedd sgwarog gyda blaenau llydan byseddog. Mae ganddo blu brown ac mae gan yr oedolion ben golau a chynffon wen. Mae Eryrod Cynffonwen yn rhywogaeth fawreddog ac eiconig sydd ag arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol sylweddol ym mytholeg a llên gwerin Cymru. Yn olygfa gyffredin ar un adeg ar draws arfordiroedd, aberoedd, gwlybdiroedd, llynnoedd ac afonydd y DU, cofnodwyd y pâr magu olaf yng Nghymru yn 1830 yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig. Heb unrhyw obaith o ailsefydlu'n naturiol, nod Ailgyflwyno'r Eryr Cymru (ERW) yw adfer yr adar godidog yma i hedfan yn awyr Cymru ar ôl absenoldeb o 150 o flynyddoedd.

Bygythiadau

Yn dilyn cyfnod dwys a pharhaus o erledigaeth, erbyn 1918 roedd yr aderyn wedi wynebu difodiant yn y DU. Er mwyn ceisio adfer y rhywogaeth i'w hamrediad hanesyddol, mae ailgyflwyno wedi digwydd yn yr Alban, Iwerddon ac, yn fwy diweddar, ar Ynys Wyth. Nid oes unrhyw ymdrechion wedi cael eu gwneud eto yng Nghymru er gwaethaf digonedd o gynefin ac adnoddau addas.Mae'r bygythiadau presennol i'r rhywogaeth yn cynnwys:

- Colli a diraddio cynefinoedd
- Llygredd i gynefinoedd morol a dŵr croyw
- Defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr mewn lleoliadau amaethyddol a domestig
- Erlid uniongyrchol ac anuniongyrchol (saethu, maglu, gwenwyno bwriadol ac eilaidd)
- Gwrthdrawiadau gyda llinellau pŵer a thyrbinau gwynt
- Camsyniadau a chamadnabod

Nod ERW yw meithrin perthnasoedd gyda chymunedau lleol a pherchnogion tir i godi ymwybyddiaeth o'r rhywogaeth a'i buddion cadwraeth ehangach.

Gweithredu angenrheidiol


- Adfer yr Eryr Cynffonwen i gynefinoedd dŵr croyw a morol addas yng Nghymru.
- Monitro a gwerthuso'r boblogaeth sydd wedi'i sefydlu o'r newydd.
- Parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i dargedu gweithredu strategol i leihau'r bygythiadau a'r risgiau amgylcheddol, gan greu amgylchedd mwy diogel a chynaliadwy ar gyfer bioamrywiaeth ehangach a chymunedau yng Nghymru.

Cyswllt Amgylchedd Cymru (Elusen Gofrestredig.1022675) © 2024 Cyswllt Amgylchedd Cymru

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Species Briefing | 2024






Historic distribution of the White-tailed Sea Eagle in Wales.

White Tailed Sea Eagle

Species Champion



Alun Davies MS
Party: Welsh Labour
Region: Blaenau Gwent



More information

- https://www.eaglereintroductionwales.com/white-tailed-eagle-programme

Lead member

Wildlife Trusts Wales
Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Description and status

The White-tailed Eagle is a UK rare breeder and our largest bird of prey. Commonly known as the Sea Eagle, these birds have square-like 8ft wings with broad fingered tips. They have brown plumage and adults have a pale head and white tail. White-tailed Eagles are a majestic and iconic species that have significant cultural and historical significance in Welsh mythology and folklore. Once a common sight across our UK coastlines, estuaries, wetlands, lakes and rivers, the last breeding pair in Wales was recorded in 1830 at Kenfig National Nature Reserve. With no chance of natural recolonisation, Eagle Reintroduction Wales (ERW) aims to restore these magnificent birds to soaring the skies of Wales after a 150-year absence.

Threats

Following an intense and sustained period of persecution, by 1918 the UK birds became extinct. In a bid to restore the species to historic ranges, reintroductions have taken place in Scotland, Ireland and more recently the Isle of Wight. No attempts have yet been made in Wales despite an abundance of suitable habitat and resources. Current threats to the species include:

- Habitat loss and degradation
- Pollution to marine and freshwater habitats
- Use of pesticides and herbicides in agriculture and domestic settings
- Direct and in-direct persecution (shooting, trapping, intentional and secondary poisoning)
- Collisions with powerlines and wind turbines
- Misconceptions and misidentification

ERW aims to build relationships with local communities and landowners to raise awareness of the species and their wider conservation benefits.

Actions required

- Restore the White-tailed Eagle to suitable freshwater and marine habitats in Wales.
- Monitor and evaluate the newly established population.
- Continue to work with stakeholders to target strategic action to reduce threats and environmental risks, creating a safer and sustainable environment for wider biodiversity and communities in Wales.

Wales Environment Link (Charity No.1022675) © 2024 Wales Environment Link